



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan Gomisiynydd Cymraeg.
Rhagfyr 2014 .

Anabledd Dysgu Cymru

Ein cenhadaeth yw creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac sydd yn cynnwys pob plentyn a oedolyn ag anabledd dysgu.

Credwn bod gan bawb

- yr hawl i batrwm bywyd cyffredin yn y gymuned.
- yr hawl i gael eu trin fel unigolion
- yr hawl i gymorth a chefnogaeth ychwanegol i ddatblygu eu potensial i'r eithaf
- yr hawl i gymryd rhan ym mhob proses o wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaeth.

Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG



029 2068 1160



enquiries@learningdisabilitywales.org.uk



www.learningdisabilitywales.org.uk

Rhif Elusen Cofrestredig: 1062858

Cynnwys

Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad	1
1. Delwedd Gyhoeddus	3
Hunaniaeth Corfforaethol	3
Arwyddion.....	3
Deunyddiau cyhoeddedig ac argraffiedig.....	4
Gwefan	5
Facebook.....	6
Trydar.....	7
2. Cyswllt Uniongyrchol.....	9
Ffôn	9
Gohebiaeth Ysgrifenedig	9
Cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori.....	10
Cysiau hyfforddi a digwyddiadau rhwydweithio.....	11
3. Datblygu Polisi, Partneriaethau a Phrosiectau	13
4. Rheoli a Gweinyddu.....	15
Hyfforddiant a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg.....	15
Technoleg	16
Monitro	17
Recriwtio	17
Cyhoeddi ac adborth	19
Amserlen Gweithredu 2010 - 2013	20

Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cefnogi statws gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru ac rydym yn anelu at fod yn gynhwysol yn ein gweithgareddau trwy ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nod y cynllun hwn ydy cefnogi cenhadaeth Anabledd Dysgu Cymru i greu Cymru sydd yn gwerthfawrogi pob plentyn ac oedolyn ag anabledd dysgu trwy sicrhau mynediad cyfartal i'n gwasanaethau a thrwy annog ein haelodau a'n partneriaid i fabwysiadu dull tebyg o weithredu.

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut, dros y dair blynedd nesaf, y byddwn yn datblygu ac yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn lle mae'n rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Credwn bod galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith yn chwarae rhan bwysig wrth i unigolion wireddu eu hawliau ac mae'n gyfrifoldeb ar Anabledd Dysgu Cymru i hyrwyddo hyn. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cydnabod bod gwadu'r hawl i bobl ddefnyddio eu dewis iaith yn gallu eu rhoi mewn sefyllfa o anfantais. Amlygir y pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu yn eu dewis iaith yn yr adroddiad **'Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd'** a ysgrifennwyd ar gyfer Cyngor Defnyddwyr Cymru.

“Mae'r anwasterau sy'n wynebu pobl yn y sefyllfa hon yn gallu cael eu dwysáu os oes rhaid iddyn nhw gyfathrebu yn eu hail iaith. Mae yna dystiolaeth anecdotaidd sylweddol bod siaradwyr Cymraeg gydag anableddau dysgu yn ymateb yn well i anogaeth yn eu hiaith gyntaf.”¹

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi ymrwymo i gynhwysiant a chydaddoldeb mynediad i'w holl aelodaeth a'u hawl i ddewis iaith. Mae hyn yn hawl dynol sylfaenol, yn angenrheidiol i rôl Anabledd Dysgu Cymru fel llais torfol yng Nghymru.

¹ “Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd”, Andrew Missell 2000

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ymarfer cyfredol yn ogystal â'r gwaith y byddwn yn ei gyflawni yn y dyfodol, ac felly dylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r Amserlen Gweithredu ar dudalen 13.

Awst 2014

1. Delwedd Gyhoeddus

Hunaniaeth Corfforaethol

- 1.1 Mae gennym logo hunaniaeth corfforaethol dwyieithog sydd yn cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'n henw.
- 1.2 Cynhyrchir pob papur â phennawd, dalenni eglurhaol, slipiau cyfarch, cardiau busnes a ffurflenni safonol allanol eraill yn ddwyieithog.

Arwyddion

Mae'r adran hon yn berthnasol i arwyddion gwybodaeth yn swyddfeydd Anabledd Dysgu Cymru ac arwyddion a godir gan Anabledd Dysgu Cymru mewn lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, cyrsiau hyfforddi, cynadleddau a digwyddiadau eraill.

- 1.3 Fe fydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd testun ar arwyddion yn parchu egwyddorion cydraddoldeb fel a nodwyd yn 'Canllaw i Ddylunio Dwyieithog'² (ar gael i'r holl staff)
- 1.4 Lle caiff arwyddion Cymraeg a Saesneg eu defnyddio ar wahân fe fyddan nhw o'r un maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

² Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2001

Deunyddiau cyhoeddedig ac argraffiedig

Mae'r adran hon yn berthnasol i fersiynau copi caled ac electronig o'r canlynol, a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r cynllun.

- Llais
 - E-Briffiadau
 - Deunyddiau hyfforddi ar gyfer cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau cyhoeddus
 - Taflenni aelodaeth
 - Adroddiad Blynyddol
 - Unrhyw ddogfennau eraill o natur tebyg
- 1.5 Fel mater o arfer da, cyhoeddir y deunyddiau uchod yn ddwyieithog, naill ai mewn un ddogfen 'wyneb i waered' fel y dewis dymunadwy neu fel dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân lle nad ydy cyhoeddi fel un ddogfen y bosibl nac yn ymarferol.
- 1.6 Fe fydd yr E-briffiadau yn ddwyieithog ac eithrio eitemau newyddion gan drydydd partïon (gweler 1.16).
- 1.7 Gallwn, o ran tanysgrifiadau Llais, ofyn am ddewis iaith dymunol y tanysgrifwyr a chyflenwi cyhoeddiadau yn eu dewis iaith o Gymraeg neu Saesneg.
- 1.8 Mewn achosion lle mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r deunyddiau yn cael eu cyhoeddi, fe fydd pob un yn cynnwys neges yn dweud bod y ddogfen ar gael hefyd yn Saesneg/Cymraeg "This document is also available in Welsh" / "Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg".
- 1.9 Pan gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fe'u cyhoeddir ar yr un pryd ac fe fyddan nhw yr un mor hygyrch.

1.10 Fe fydd yna rai sefyllfaoedd lle mae'n rhaid cyhoeddi dogfen ar frys a lle na fydd amserlenni yn caniatâu i ddogfen wedi'i chyfieithu fod ar gael ar yr un pryd. Os felly, hysbysir y rhai sydd i dderbyn y ddogfen y bydd yn cael ei chynhyrchu cyn hir, ac na fydd hynny yn hirach nag un wythnos.

1.11 Lle mae dogfennau ar gael i'w prynu, fe fyddwn yn sicrhau bod cost y fersiwn Gymraeg a Saesneg yr un fath.

1.12 Fe fydd staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r bwrdd yn derbyn canllawiau ar gynhyrchu deunyddiau dwyieithog³.

Gwefan

1.13 Fe fydd ein gwefan yn gyfan gwbl ddwyieithog ac eithrio rhai o'r 'Eitemau Newyddion'.

1.14 Mae yna ddau fath o Eitemau Newyddion yr ydym yn eu cyhoeddi ar ein gwefan

a) Mae Eitemau Newyddion **a gynhyrchir gan Anabledd Dysgu Cymru** yn cael eu hysgrifennu gennym ni ac yn bennaf neu yn gyfan gwbl yn ein geiriau ein hunain.

b) Mae Eitemau Newyddion **a ddosberthir gan Anabledd Dysgu Cymru** yn erthyglau o newyddion a ail gyhoeddir gan drydydd parti, ac yn cynnwys, yn bennaf neu yn gyfan gwbl, y testun o ddatganiad i'r wasg neu destun arall a gyhoeddwyd neu a ddarparwyd gan drydydd parti.

1.15 Caiff Eitemau Newyddion a gynhyrchir gan Anabledd Dysgu Cymru eu cyhoeddi yn gyfan gwbl ddwyieithog.

³ "Canllaw i Ddylunio Dwyieithog", Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009

- 1.16 Caiff Eitemau Newyddion a ddsberthir gan Anabledd Dysgu Cymru eu cynnwys ar Dudalennau Cymraeg a Saesneg ein Gwefan.
- a) Cyhoeddir y pennawd bob amser yn ddwyieithog.
 - b) Fe fyddwn yn anelu at gyhoeddi'r crynodeb (crynodeb un paragraff) yn ddwyieithog lle mae'n bosibl.
 - c) Cyhoeddir corff yr Eitem Newyddion yn yr iaith a gyhoeddwyd gan y trydydd parti.
- 1.17 Lle nad ydy Eitem Newyddion wedi'i chyhoeddi yn gyfan gwbl ddwyieithog, rhoddir esboniad safonol o'n polisi ar waelod yr erthygl gyda dolen i'n Cynllun Iaith Gymraeg.
- 1.18 Fel mater o arfer da caiff unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r wefan eu gweithredu ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg.
- 1.19 Lle nad ydy diweddarau ar yr un pryd yn ymarferol (h.y. sefyllfa o frys pan nad oes cyfieithiad ar gael ar unwaith) fe fydd y fersiwn Gymraeg neu Saesneg sydd ar goll ar gael ar y wefan o fewn pump diwrnod gwaith.

Facebook

- 1.20 Fe fydd manylion y dudalen a disgrifiad o'r corff mor ddwyieithog â phosibl yn unol â fformat Facebook, gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf.
- 1.21 Mae yna ddau fath o bostiadau yr ydym yn eu cyhoeddi ar Facebook
- a) Caiff postiadau **a gynhyrchir gan Anabledd Dysgu Cymru** eu hysgrifennu gennym ni , yn bennaf neu yn gyfan gwbl yn ein geiriau ein hunain a gall gysylltu gyda chynnwys ar ein gwefan ein hunain neu wefan trydydd parti.
 - b) **Mae rhaniadau Anabledd Dysgu Cymru** yn bostiadau a ail gyhoeddir o Facebook trydydd parti a gallant gysylltu gyda chynnwys ar wefan trydydd parti.

- 1.22 Cyhoeddir postiadau a gynhyrchir gan Anabledd Dysgu Cymru yr un pryd gyda fersiwn Gymraeg a Saesneg.
- 1.23 Pan yn darparu dolen i bost a gynhyrchwyd gan Anabledd Dysgu Cymru, lle mae ar gael, fe fyddwn yn darparu dolen i'r wefan yn yr iaith sydd yn berthnasol i'r post.
- 1.24 Cyhoeddir rhaniadau Anabledd Dysgu Cymru yn iaith y post gwreiddiol.
- 1.25 Os ydy Anabledd Dysgu Cymru yn cynnwys ei sylwadau ei hun wrth rannu post trydydd parti fe fyddwn yn cyhoeddi ar yr un pryd gyda fersiwn Gymraeg a Saesneg.
- 1.26 Caiff atebion i bostiadau neu sylwadau eu gwneud yn iaith y post neu'r sylw y cyfeirir ato.
- 1.27 Fe fyddwn yn creu ac yn defnyddio banc geiriau i'n galluogi i gyhoeddi postiadau a rhaniadau Facebook syml yn Gymraeg a Saesneg.

Trydar

- 1.28 Fe fydd manylion proffil a disgrifiad o'r corff mor ddwyieithog â phosibl yn unol â fformat Trydar gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf.
- 1.29 Lle mae'n bosibl gwneir negeseuon Trydar yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.
- 1.30 Fe fyddwn yn creu ac yn defnyddio banc geiriau i'n galluogi i gyhoeddi negeseuon Trydar syml yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1.31 Fe fyddwn yn gweithio i gynyddu ein sgiliau a'n gallu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein negeseuon Trydar

1.32 Fe fydd atebion yn iaith y negeseuon Trydar neu'r ateb y cyfeirir ato.

2. Cyswllt Uniongyrchol

Ffôn

- 2.1 Caiff pob galwad ffôn i'r corff eu hateb gyda chyfarchiad Cymraeg.
- 2.2 Fe fydd cyfarchion peiriant ateb ein prif swyddfa yn ddwyieithog.
- 2.3 Lle mae galwyr yn dymuno parhau eu galwad yn Gymraeg ac os nad ydy'r person sydd wedi ateb yr alwad yn siarad Cymraeg, fe fyddan nhw'n rhoi'r cyfle i'r galwr gael ei drosglwyddo i aelod o'r staff neu wirfoddolwr sydd yn gallu siarad Cymraeg.
- 2.4 Lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael caiff y galwr y dewis i dderbyn galwad yn ôl pan fo siaradwr Cymraeg ar gael, rhoi'r ymholiad mewn ysgrifen neu barhau gyda'r alwad yn Saesneg os yn bosibl.

Ar adeg cymeradwyaeth, does dim siaradwyr Cymraeg rhugl yn gyflogedig gan Anabledd Dysgu Cymru, sydd yn amharu ar ein gallu i gyflenwi'r gwasanaeth a amlinellir yn 2.3. Gwneir cynnydd parhaus trwy hyfforddiant a recriwtio staff i gyflenwi'r gwasanaeth yma.

- 2.5 Fe fydd staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth priodol i ateb y ffôn yn ddwyieithog.

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae'r adran hon yn berthnasol i ohebiaeth ysgrifenedig yn cynnwys llythyrau ac e-byst.

- 2.6 Fe fyddwn yn ateb gohebiaeth yn yr iaith y cafodd ei dderbyn. Lle mae diwallu'r gofynion uchod yn galw am ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu, caiff yr ymatebion eu gwneud o fewn amseroedd ymateb arferol.

2.7 Fe fydd negeseuon e-bost allan o'r swyddfa awtomatig yn ddwyieithog. Darperir staff gyda thestun safonol wedi'i gyfieithu i'w gynnwys yn y negeseuon ac fe fyddan nhw'n derbyn cefnogaeth i newid y dyddiadau cywir.

Cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori

Mae'n bwysig inni bod ethos dwyieithog i'r digwyddiadau a drefnir gan Anabledd Dysgu Cymru sydd yn grymuso cyfranogwyr i deimlo'n gyfforddus mewn cyfathrebu trwy eu dewis iaith.

2.8 Fe fyddwn yn holi am ddewis iaith y rhai sydd yn mynychu ein digwyddiadau ac yn cofnodi'r ymatebion trwy ddefnyddio'r geiriad canlynol

- A. Nodwch ym mha iaith y byddwch yn cyfrannu ynddi yn y digwyddiad: Saesneg/Cymraeg
- B. Nodwch a fyddwch angen offer cyfieithu i ddeall unrhyw gyfraniad a wneir yn Gymraeg: Ydw/Nac Ydw
- C. Ym mha iaith yr hoffech dderbyn eich pecyn cyfranogwr: Cymraeg/Saesneg

2.9 Pan fo rhai sydd yn mynychu digwyddiadau yn nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith, gwneir trefniadau cyfieithu ar y pryd priodol, yn berthnasol i'r math o ddigwyddiad.

2.10 Cynhyrchir yr holl ddalenni adborth a ffurflenni monitro Cyfle Cyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.11 Fe fyddwn yn agor ac yn cloi ein cynhadledd flynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- 2.12 Lle mae'n bosibl ac yn briodol fe fydd siaradwr Cymraeg yn cadeirio cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori a gall gynorthwyo gyda'r cyfieithu os oes angen.
- 2.13 Cynhyrchir y dogfennau ar gyfer ein pecynnau cyfranogwyr yn ein cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori yn newis iaith y cyfranogwr yn ôl yr hyn a nodir ar eu ffurflen gofrestru (gweler 2.8).
- 2.14 Fe fyddwn yn annog cyrff eraill sydd yn darparu deunyddiau i'w cynnwys yn y pecyn cyfranogwyr i ddarparu deunyddiau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau rhwydweithio

Grwpiau bychain sydd yn ein cyrsiau hyfforddi a chyfarfodydd rhwydweithio lle mae trafodaethau a rhyngweithio yn rhan mawr a phwysig o'r sesiwn. Cydnabyddir nad ydy cyfieithu ar y pryd yn gweithio'n dda iawn mewn sefyllfaoedd fel hyn.

- 2.15 Fe fyddwn yn hysbysebu ym mha iaith y cynhelir y sesiynau ynddi ar bob deunydd cyhoeddusrwydd.
- 2.16 Lle mae'n bosibl fe fyddwn yn rhoi cyfranogwyr gyda'i gilydd yn ôl dewis iaith ar gyfer gwaith grŵp. I hwyluso hyn fe fyddwn yn gofyn beth ydy dewis iaith y cyfranogwyr ac yn cofnodi ymatebion trwy ddefnyddio'r geiriad canlynol

Nodwch pa iaith yr hoffech ei defnyddio mewn unrhyw waith/trafodaethau grŵp: Saesneg/Cymraeg

- 2.17 Cynhyrchir pob dalen adborth a ffurflenni monitro Cyfle Cyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.18 Fe fyddwn yn gofyn am ddewis iaith y rhai sydd yn prynu hyfforddiant mewnol ac yn ceisio sicrhau hyfforddwr sydd yn gallu cyflenwi yn yr iaith a ddewisir.

3. Datblygu Polisi, Partneriaethau a Phrosiectau

3.1 Lle mae'n bosibl fe fyddwn yn sicrhau bod yr holl brosiectau a phartneriaethau a sefydlir gan Anabledd Dysgu Cymru yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i gynnal y cynllun hwn ac i barhau i hyrwyddo cydraddoldeb.

Caiff rhai o'n prosiectau eu cyllido gan yr Undeb Ewropeaidd, nad yw'n cydnabod y Gymraeg fel iaith swyddogol. Ac felly, efallai nad ydy cyllid ar gyfer y prosiectau hyn yn gallu cefnogi dwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg.

3.2 Lle nad ydy prosiect wedi'i gyllido i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg fe fyddwn yn ceisio darganfod cyllid neu atebion amgen i'r defnydd o'r Gymraeg lle mae hynny'n bosibl.

3.3 Fe fyddwn yn sicrhau, wrth inni adolygu ein polisiâu ac wrth i bolisiau newydd gael eu cyflwyno, eu bod yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i gynnal y cynllun hwn ac i barhau i hyrwyddo cydraddoldeb.

3.4 Fe fydd pob polisi, partneriaeth a phrosiect newydd yn cefnogi'r cynllun hwn ac nid yn ei danseilio.

3.5 Fe fyddwn yn sicrhau bod yr holl staff sydd yn ymwneud â datblygu polisiâu, prosiectau a phartneriaethau yn ymwybodol o rwymedigaethau'r cynllun hwn ac yn eu cymryd i ystyriaeth.

3.6 Os oes angen fe fyddwn yn ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag unrhyw gynigion allai effeithio ar yr iaith Gymraeg. Ni chaiff y Cynllun Iaith Gymraeg hwn ei newid heb gytundeb Comisiynydd y Gymraeg, a'n Pwyllgor Rheoli.

3.7 Fe fyddwn yn annog ein haelodau ac unigolion a chyrrff eraill sydd yn gweithio gyda neu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

4. Rheoli a Gweinyddu

Hyfforddiant a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg

- 4.1 Fe fydd arolygwyr yn asesu anghenion hyfforddi Iaith Gymraeg eu staff fel rhan o'r broses Arolygu a Gwerthuso.
- 4.2 Fe fyddwn yn nodi cyrsiau sydd yn cael eu cynnig gan gyrff allanol ac yn hyrwyddo'r cyrsiau hyn yn fewnol. Os ydy staff yn dymuno mynychu cwrs Cymraeg, caiff pob achos ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, yn dibynnu ar berthnasedd hyfforddiant o'r fath i swydd a Chynllun Datblygu Personol yr unigolyn.
- 4.3 Fe fyddwn yn darparu rhestr o gyfieithwyr cymeradwy i bob aelod o'r staff.
- 4.4 Fe fyddwn yn darparu banc o ymadroddion a brawddegau defnyddiol Cymraeg a Saesneg i'r staff.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

- 4.5 Darperir Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith naill ai trwy ddefnyddio deunyddiau dysgu ar-lein/o bell neu trwy gyrsiau/seminarau hyfforddi traddodiadol.
- 4.6 Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gymryd rhan mewn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.
- 4.7 Fe gaiff Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ei gynnig i aelodau ein Pwyllgor Rheoli.

Technoleg

- 4.8 Fe fyddwn yn sicrhau bod yr holl feddalwedd y mae'r corff yn ei brynu yn gydnaws â chyflenwad cynllun yr Iaith Gymraeg. Fe fydd gwiriwr sillafu Cymraeg cyfrifiadurol ar gael i aelodau perthnasol o'r staff. Fe fydd fersiynau Cymraeg o Windows, Office ac unrhyw becynnau meddalwedd dwyieithog perthnasol arall ar gael i'r staff .

Monitro

- 4.9 Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y polisi yma yn flynyddol ac yn adrodd i'n Pwyllgor Rheoli ac i Gomisiynydd y Gymraeg. Caiff y patrymlun adrodd a ddarparwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ei ddefnyddio i'r diben yma.
- 4.10 Fe fyddwn yn cynnal Archwiliad Sgiliau Cymraeg y staff bob blwyddyn.
- 4.11 Ar y cyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg caiff y cynllun hwn ei adolygu a'i addasu yng ngoleuni hyn ar ôl cyfnod o dair blynedd ers ei gymeradwyo.

Recriwtio

- 4.12 Wrth i swyddi staff ac aelodaeth y Pwyllgor Rheoli ddod yn wag fe ddynodir iaith iddyn nhw, ac fe ddefnyddir hyn wrth recriwtio. Rhoddir dynodiad iaith hefyd i bob swydd newydd a gyflwynir.
- 4.13 Mae'r dynodiad iaith yn ystyried i ba raddau y mae cyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd. Mewn rhai achosion gall y dynodiad iaith adlewyrchu gofynion y cyllidwyr neu'r rhan ddeiliaid. Defnyddir y dynodiadau canlynol:
- **Cymraeg yn hanfodol** dim ond ymgeiswyr sydd yn diffinio eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg y gellir eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld. Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, cynhelir prawf ysgrifenedig a llafar byr fel rhan o'r cyfweliad.
 - **Cymraeg yn fanteisiol** lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael yr un flaenoriaeth yn y broses gyfweld â gofynion hanfodol eraill ond nid yw'n atal y rhai nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg rhag bod ar y rhestr fer a chael eu cyfweld. Gall

cytundeb i dderbyn hyfforddiant Cymraeg priodol fod yn rhan o'r cynnig o swydd.

- **Cymraeg yn ddymunol** mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried dim ond ar ôl i ffactorau eraill gael eu pwysu ac fe gaiff ei ddefnyddio lle mae'r gwahaniaeth yn y ffactorau eraill rhwng ymgeiswyr yn fach iawn.

- 4.14 Fe fyddwn yn defnyddio hysbysebion dwyieithog ar gyfer hysbysebu swyddi staff ac aelodaeth y pwyllgor rheoli.
- 4.15 I swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol fe fyddwn yn hysbysebu yn Gymraeg yn unig gydag esboniad byr yn Saesneg.
- 4.16 Fe fydd pob hysbyseb swydd a chyhoedduswydd yn hysbysu ymgeiswyr bod croeso i geisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 4.17 Fe fydd yr holl ymgeiswyr am swyddi potensial yn gallu dewis ym mha iaith y maen nhw'n dymuno derbyn y pecyn ymgeisio, Cymraeg neu Saesneg, ac fe fyddan nhw'n derbyn deunyddiau yn yr iaith briodol.
- 4.18 Fe fydd pob pecyn ymgeisio yn hysbysu ymgeiswyr y bydd ceisiadau yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg i ddibenion recriwtio.
- 4.19 Fe fyddwn yn ystyried ac yn defnyddio, lle mae'n briodol, dulliau eraill o hysbysebu swyddi – er enghraifft mewn Papurau Bro a Golwg.
- 4.20 Ym mhob achos lle caiff y Gymraeg ei hystyried yn hanfodol, fe fydd o leiaf un siaradwr Cymraeg ar y panel cyfweld ac fe fyddwn yn gofyn o leiaf un cwestiwn yn Gymraeg i'r ymgeiswyr.

4.21 Fe fyddwn yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol yn y fanyleb person ar gyfer un gweithiwr gweinyddol pan fydd y swydd berthnasol nesaf yn wag.

4.22 Fe fyddwn yn anelu at gael o leiaf un siaradwr Cymraeg ar ein Pwyllgor Rheoli.

Cyhoeddi ac adborth

4.23 Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael i'n holl aelodau ac i'r cyhoedd.

4.24 Fe fydd crynodeb hawdd ei ddeall o'r cynllun ar gael ar ein gwefan, ac fe fyddwn yn annog awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r cynllun.

4.25 Fe fydd cwynion ynghylch methiannau i ddiwallu gofynion y cynllun yn cael eu trafod gan ein Rheolwr Adnoddau Dynol a Llywodraethu yn unol â'n gweithdrefn cwynion safonol.